

Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang



Rhifyn 11 Mai 2009

Cynhyrchwyd gan y Ganolfan Addysg Byd
www.bangor.ac.uk/addysgbyd
ar ran Fforwm ADCDF Gogledd-Orllewin Cymru

Eisiau datblygu ADCDF yn eich ysgol? Cyfleoedd newydd i gael cefnogaeth ADCDF

Eleni mae 42 o ysgolion wedi cymryd rhan ym mhroject y Ganolfan Addysg Byd a gyllidir gan yr Adran Datblygu Rhyngwladol. Mae deg o athrawon profiadol wedi bod yn cefnogi ysgolion i ddatblygu ADCDF a chafwyd sylwadau rhagorol.

Dyma'r cyfle i'ch ysgol chi gymryd rhan!

Rydym yn recriwtio'n awr ar gyfer ail flwyddyn y project. Yn ogystal â chefnogaeth gan athro arall byddwch hefyd yn cael 2 ddiwrnod o ddarpariaeth lanw i ryddhau athro o ddyletswyddau dosbarth, cefnogaeth staff ac adnoddau'r Ganolfan Addysg Byd a chyfle i ymuno yn ein cynhadledd diwedd blwyddyn i rannu eich profiadau. Cysylltwch â Sheila Bennell cyn gynted â phosibl yn s.bennell@bangor.ac.uk

Beth am fod yn seren ffilm - DVD ysgolion ar ADCDF

Yn fuan byddwn yn dechrau gwaith ar DVD yn cynnwys gwaith datblygu ysgolion ar ADCDF. Os teimlwch y gall eich ysgol gyfrannu rhywbeth at y ffilm hon, cysylltwch naill ai â Sheila Bennell s.bennell@bangor.ac.uk neu ag Angie Roberts seren-ddu-a-mwnici@hotmail.com

Sêr ffilm yn barod!

Da iawn Ysgol Tregarth! – DVD newydd Where I Live: Denu, a town in eastern Ghana, Tregarth, a village in Gwynedd, Wales

Cyhoeddwyd gan SoundAffects, mae DVD yn adlewyrchu'r partneriaeth rhwng Ysgol Tregarth, Ysgol Bodfeurig

ac Adafienu School and Great Royal Schools Complex yn Denu, Ghana.

Mae wedi ei gynllunio i ddefnyddio ar fwrdd gwyn ac mae'n cefnogi CA2 Daearyddiaeth, ADCDF a Hanes. Mae'n annog disgyblion i gymharu a meddwl yn dyfnach am fywyd yn ei pentrefi a threfi ei hunain.



Gweithdai i Ysgolion Cynradd

Mae Oxfam wedi rhoi grant newydd i'r Ganolfan Addysg Byd i gynnal gweithdai ar 'Hawl i Addysg'. Angie Roberts fydd yn gwneud y gwaith yma a bydd yn gallu rhoi cefnogaeth i 15 ysgol rhwng nawr a'r Pasg nesaf. Os hoffech gael sesiwn yn eich ysgol, cysylltwch naill ai ag Angie Roberts seren-ddu-a-mwnici@hotmail.com neu â Sheila Bennell s.bennell@bangor.ac.uk

Y Darllen Mawr

Mae arweinwyr byd wedi addo y bydd pob plentyn yn cael addysg gynradd erbyn 2015. Ond, gyda dim ond 6 blynedd i fynd, mae yna 75 miliwn o blant o hyd nad ydynt yn cael addysg o gwbl. Gall eich disgyblion helpu drwy ymuno â'r gweithredu eleni – dyma DDARLLEN MAWR byd-eang gyda miliynau'n cymryd rhan mewn 100 o wledydd ar draws y byd. Mynnwch bod ein harweinwyr yn cadw at eu gair drwy weld y gweithgareddau ar

<http://www.sendmyfriend.org/the-big-read>



Enillwch drip i Affrica!

Ydi'ch myfyrwyr rhwng 16 a 18 oed? Ni ddylai dim eich rhwystro rhag cymryd rhan yn ein Gwobr Datblygu Ewropeaidd i leuenctid 2008/09. Mae'n hawdd cymryd rhan: mae disgyblion yn cyflwyno ar ffurf poster neu fideo eu gweledigaeth ar y tri mater canlynol: 'cydraddoldeb gender', 'plant ac ieuencid' neu 'amrywiaeth diwylliannol' yn ymwneud â 'datblygiad dynol'. Os ydych eisiau mynd gam ymhellach gyda'ch disgyblion, fe gewch ddeunydd addysgol arbennig ar astudiaeth achos yn Rwanda yn adran llyfrgell y wefan. Caiff yr enillwyr cenedlaethol a'r rhai ail orau, a ddewisir gan banel amlwg, fynd ar ymweliad deuddydd i Stockholm, drwy'r cynllun Dyddiau Datblygu Ewropeaidd. Bydd yr enillwyr hefyd yn



Ydi'ch ysgol yn gwneud rhywbeth diddorol? Ydych chi'n gwybod am unrhyw adnoddau newydd neu ddiwyddiadau arbennig? Anfonwch gyfraniadau at gylchlythyr yr haf at Viv Ellis yn y Ganolfan Addysg Byd eds80c@bangor.ac.uk

ymweld â gwlad Affricanaidd, gan gael profiad uniongyrchol o raglenni cymorth Ewropeaidd. Darllenwch fwy yn: www.dyp2008.org/apps/eun_apps/dyp2008/restricted/index.cfm

Modiwlau MA ar ADCDF

Hoffech chi astudio ADCDF dipyn dyfnach i gael gwybod am ei chysylltiadau â'r Fframwaith Sgiliau neu i ddysgu mwy am y materion sydd wrth wraidd ADCDF? Mae'r Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes ym Mhrifysgol Bangor yn cynnig modiwlau lefel meistr ar ADCDF – dysgir y rhain ar benwythnosau ac o bell. Mae'r rhain yn cynnwys *Dulliau, Y Byd Rhyngddibynnol, Newid Cynaliadwy a Dinasyddiaeth a Chyfiawnder Cymdeithasol*. Mae nifer dda o athrawon wedi astudio'r rhain erbyn hyn a chael llawer o fudd ohonynt ar gyfer eu gwaith dysgu.

Cysylltwch â Gwen Hughes eds056@bangor.ac.uk am daflen wybodaeth.

Dysgu am Faterion Byd-eang: Modiwl Lefel 1

Mae Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes Prifysgol Bangor yn cynnig cwrs gyda'r nos yn ystod tymor yr hydref ar *Dinasyddiaeth Fyd-eang – byw gyda'r darlun mawr*. Dysgir y modiwl gan arbenigwyr o wahanol rannau o'r brifysgol ac mae'n cynnwys sesiynau ar newid hinsawdd, byw'n gynaliadwy, dinasyddiaeth, gwrthdaro a therfysgaeth. Mae'r modiwl hwn yn berthnasol i unrhyw athrawon sydd eisieu gwybod am gefndir y themâu hyn. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â David Sullivan d.sullivan@bangor.ac.uk neu â Sheila Bennell s.bennell@bangor.ac.uk neu i gofrestru cysylltwch â ll@bangor.ac.uk, ffôn: 01248 382708

Ymunwch ag Ysgolion Masnach Deg ac enillwch wobwr!

Da iawn chi bawb a gyfrannodd at Bythefnos Masnach Teg 2009. Ledled Cymru cymerodd 40,000 ran yn yr achlysur bwyta bananas – llawer ohonynt yn blant ysgol yma yn y Gogledd. Felly, beth am chi gael cydnabyddiaeth am yr holl waith caled rydych wedi'i wneud a gwneud cais am Statws Masnach Deg i'ch ysgol? Bydd y ddwy ysgol gyntaf i dderbyn y Statws yn siroedd Gwynedd, Conwy ac Ynys Môn yn derbyn pêl-droed arbennig Masnach Deg ynghyd â'u tystysgrif. (Offerynnau Masnach Deg fydd y wobwr i unrhyw ysgol sydd ag un o'r peli hyn yn barod.) Mae



Oxfam yn cynnig CDs a llyfrau i'r ysgol gyntaf i gael y Statws ar ôl hynny. Ewch at www.masnachdegymru.com/schools/resources/49 i gael manylion ar dudalen 9 am wneud cais ar-lein am Statws Masnach Deg.

Cysylltwch i drafod y posibilrwydd o anfon tystiolaeth drwy'r post (bydd y dewis hwn ar gael yn unig yn ystod tymor haf 2009). Pob lwc a diolch. Angie Roberts, Gweithiwr Cefnogi Masnach Deg i Ysgolion.

Llwybr Troednoeth

Ddiwedd Mawrth 2009 fe wnaeth y Gelli Gyffwrdd, un o brif atyniadau Gogledd Cymru i deuluoedd, agor ei atyniad newydd a chyffrous. Mae'r Llwybr Troednoeth yn eich galluogi i gerdded yn droednoeth fel eich hynafiaid dros amrywiaeth o dirweddau, yn cynnwys cerrig crynion, rhisgl coed, tywod, llechi a mwd hyd yn oed. Nid yn unig mae hwn yn hwyl i'r teulu i gyd ond byddwch yn teimlo'n braf am ddyddiau wedyn hefyd. Agorwyd y Llwybr Troednoeth gan y Gweinidog dros Dreftadaeth, Alun Ffred Jones AC, ddydd Gwener 20 Mawrth 2009.



Cwrs hyfforddi Lefel 1 i athrawon cynradd mewn Athroniaeth ar gyfer plant - 11 a 12

Mehefin 2009 – Y Deml Heddwch, Caerdydd. Os ydych eisieu cael eich disgyblion i feddwl yn feirniadol a chreadigol, yna y cwrs 2 ddiwrnod hwn yw'r union beth i chi. Mae'n rhoi cyflwyniad llawn i'r dull addysg Athroniaeth ar gyfer Plant (P4C)

Yn ogystal â chynorthwyo i gyflwyno meysydd pwnc, gall P4C gryfhau Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, a gofynion Sgiliau Meddwl cwricwlwm cenedlaethol 2008. Codir **£225 y pen** (£160 i ail athro ac athrawon dilynol o'r un ysgol) am y cwrs di-breswyl hwn. Mae'r tâl yn cynnwys: 2 ddiwrnod llawn o hyfforddiant; cinio a lluniaeth ysgafn ar y ddau ddiwrnod; Taflenni cwrs; 2 Lawlyfr Lefel 1 SAPERE i'ch ysgol, tystysgrif SAPERE a chyfle i ymuno â SAPERE am £15 (£30 fel rheol). Am fwy o fanylion gweler www.cewc-cymru.org.uk/p4c

ESDGC – Dyddiau Hyfforddi yn 2009 i athrawon uwchradd

Mae'r Adran Addysg yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen (CAT) yn cynnal dyddiau hyfforddi i athrawon uwchradd i'w helpu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd, gan ganolbwyntio'n arbennig sut y gellir cysylltu pob pwn ag ADCDF. Cynhelir pob un o'r cyrsiau yn CAT o 10.00 – 3.00, a byddant yn cynnwys te, coffi, cinio a chyflwyniad i CAT. Gallwn drefnu dyddiau hyfforddi hefyd ar gyfer yr holl athrawon yn eich ysgol – naill chi ddod atom ni neu gallwn ni ddod atoch chi. Cysylltwch â'r adran addysg am fwy o fanylion.

Dyddiadau

16/10/09 ADCDF ar gyfer Mathemateg CA3-4
23/10/09 ADCDF ar gyfer y Dyniaethau CA3-4
02/11/09 ADCDF ar gyfer Gwyddoniaeth CA3-4
03/11/09 ADCDF ar gyfer y Celfyddydau ac leithoedd CA3-4
04/11/09 ADCDF ar gyfer D&T CA3-4
09/11/09 ADCDF ar gyfer ABCh CA3-4

Ewch i wefan CAT www.cat.org.uk/teachers i gael mwy o fanylion am y rhain a chyfleoedd addysg eraill, hyfforddiant, gweithdai a digwyddiadau yn CAT, neu cysylltwch ag Anita Schwartz yn education@cat.org.uk neu ar (01654) 705983.

Canolfan yr Amgylchedd Moelyci – project newid hinsawdd

Diolch i'r Swyddfa Dywydd ac Amgylchedd Cymru mae gennym orsaf dywydd ym Moelyci sy'n ein galluogi i gofnodi'r tywydd yn ddyddiol ac offer i astudio microhinsoddau cynefinoedd. Byddwn yn defnyddio'r data a gesglir gennym i gadw golwg ar newidiadau hinsawdd yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Ar y cyd â'r project monitro'r tywydd rydym yn dechrau project arall i gofnodi bywyd gwyllt, e.e. pryd mae adar mudol yn cyrraedd, pryd mae planhigion yn blodeuo a phryd mae gwyfynod yn hedfan. Gallwn wedyn gysylltu'r data am fywyd gwyllt â'r data tywydd/microhinsawdd er mwyn dysgu mwy am effeithiau newid hinsawdd ar ein bywyd gwyllt. Os hoffech chi gymryd rhan yn y project, neu gael gwybodaeth am ein cyrsiau, cysylltwch â ni ar 01248 602793 neu e-bost office@moelyci.org

Hyfforddiant i Hyfforddwyr mewn ADCDF

Cwrs hyfforddiant preswyl 3 diwrnod ar gyfer hyfforddwyr o bob sector addysg sydd am ddatblygu eu harfer ADCDF. Cynhelir y cwrs 16-18 Mehefin 2009 yn Nghanolfan Cynhadledd

Broneirion, Llandinam, Powys. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag annette@cyfanfyd.org.uk.

Ymunwch â phroject Arolwg Arctig i ysgolion

Eleni mae Catlin Arctic Survey yn cynnal arolwg monitro systematig ar golofnau rhew Arctig i weld sut y maent yn teneuo o ganlyniad i newid hinsawdd a chynhesu byd-eang. Mae ganddynt raglen addysg ar gyfer ysgolion. Ewch i www.catlinarcticsurvey.com a chlicio ar y botwm addysg yn y gornel dde uchaf i gael gwybodaeth ar sut i ymuno â'r project a sut i gael pecyn gwybodaeth.

Llongyfarchiadau i Ysgol Glan Gele

Maent wedi ennill gwobr Ysgol Feithrin / Babanod y Flwyddyn yn y seremoni genedlaethol i wobrwyo Eco-Ysgolion. Maent wedi ymwneud â gwahanol weithgareddau, fel datblygu cysylltiadau yn Affrica a chreu gardd ar ddarn o dir segur yn y gymuned. Ynghyd ag enillwyr eraill y prif wobrau, cawsant sicc am £500 a thlws arbennig wedi ei wneud o ddeunyddiau wedi'u hadfer.

Llongyfarchiadau Ysgol Llanllechid

Mae Ysgol Llanllechid wedi ei enwi fel Ysgol y Mis- Mehefin ar safle y Cyngor Prydeinig Cymru am ei rhagoriaeth mewn partneraethau rhyngwladol.

Bwyd i Chi: Ffordd o Fyw yw Bwyta'n Iach

Mae diet iawn yn rhoi oes hirach ac iachach. Beth yw eich barn chi ar bwysigrwydd diet cywir?

Trafodwch hynny yn y dosbarth a dweud wrthym amdano mewn clip fideo: cymerwch ran yng nghystadleuaeth FOOD 4U 2009!

Mae Gweinyddiaeth Polisiâu Amaeth, Bwyd a Choedwigaeth yr Eidal yn gwahodd pawb ohonoch, yn ddisgyblion ac athrawon Ysgolion Uwchradd Ewropeaidd, i gymryd rhan yng Nghystadleuaeth 2009 FOOD 4U.

Gwnewch eitem ar bwysigrwydd dewisiadau dietegol gwybodus, lleisiwch eich syniadau a'ch awgrymiadau a dangoswch greadigrwydd eich cenhedlaeth ar thema peryglon trefn fwyta anghywir a phwysigrwydd patrymau bwyta cytbwys.

Bydd y 32 grŵp buddugol o ysgolion yn cael gwobr gyffrous: arhosiad yn yr Eidal i gymryd rhan yng Ngŵyl Fideo Food 4U 2009 *Dyddiad cau: 29 Mai 2009* Mwy o wybodaeth yn <http://www.food-4u.it/> Cyswllt video@food-4u.it

CO2 ar y ffordd i'r ysgol – gellwch ymuno o hyd!

Dewch ac ymuno â miloedd o ysgolion drwy'r byd a chymharu eich ôl troed CO2 ar gyfer eich taith i'r ysgol. Bydd y safle'n agored drwy gydol y

flwyddyn nesaf. Dim ond 7 ysgol o Gymru sydd wedi cofrestru, o'i gymharu â 67 o Wlad Iorddonen a 43 o Malaysia, er enghraifft. Ymunwch yn www.co2nnect.org

ADNODDAU

Cyhoeddiad newydd i Gyfnod Allweddol 2/3 – 'Globetrotters Club' gan Pezzalozzi –

Gweithgareddau llawn hwyl i gael plant i ymwneud â dinasyddiaeth fyd-eang. Yn y llawlyfr a'r CD newydd yma fe geir 10 o sesiynau ar ôl ysgol sy'n edrych ar nifer o wledydd ac amrywiaeth o faterion fel newid hinsawdd, cyfoethog a thlawd a datrys gwrthdaro. Pris y cyhoeddiad: £25 a chost postio.



Mae'r cyhoeddiad yn ffrwyth project partneriaeth tair blynedd, a gyllidwyd drwy Gronfa Ymwybyddiaeth Ddatblygu y DFID. I gael mwy o wybodaeth a chopi cyfarch, cysylltwch â:


lesley.shareif@pezzalozzi.org.uk

Ffôn.: 01424 870444 neu ewch i'n gwefan:

www.pezzalozzi.org.uk

Canolfan Astudio ADCDF, Prifysgol Bangor

Mae gan y Ganolfan Addysg Byd ganolfan adnoddau astudio newydd yn Llyfrgell Safle'r Normal. Mae gennym amrywiaeth gwych o adnoddau, yn cynnwys llyfrau, pecynnau dysgu, fideos a DVDs. Pam na ddewch chi draw a threulio peth amser o'r dosbarth yn cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf. Unwaith mae athrawon wedi darganfod y ganolfan hon, maent yn dod yn ôl dro ar ôl tro! Cysylltwch â Sheila Bennell s.bennell@bangor.ac.uk neu â Viv Ellis eds80c@bangor.ac.uk i drefnu amser neu galwch heibio. Rydym yma'r rhan fwyaf o ddyddiau, heblaw dydd Gwener, ac mae'r ganolfan yn agored yn ystod oriau agor arferol llyfrgell y Brifysgol.



Adnoddau Newydd i Ysgolion Uwchradd

Yn ddiweddar lansiodd TIDE *Enabling a Connected Curriculum* – cyfleoedd ar gyfer dysgu byd-eang yng nghyfnod allweddol 3 sy'n edrych ar y strategaethau addysgu a dysgu gorau ar

gyfer anghenion dysgwyr mewn cyd-destun byd-eang cyfnewidiol. Gweler www.tidec.org

Gwasanaethau Misol Cymorth Cristnogol

Mae Gwasanaethau misol Cynradd ac Uwchradd gyda PowerPoint yn awr ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar y cysylltiadau isod. Maent yn canolbwyntio ar yr hawl i addysg ac yn cefnogi'r Ymgyrch Anfonwch fy Ffrind a gynhelir yn ystod mis Ebrill. Mae'r gwasanaeth Cynradd yn cynnwys astudiaeth achos o Affganistan a disgyblion mewn ysgol yng Nghymru, tra mae'r un uwchradd yn canolbwyntio ar Yr Aifft ac Angola.

http://learn.christianaid.org.uk/TeachersResource/s/primary/primaryassembly_apr09.aspx

http://learn.christianaid.org.uk/TeachersResource/s/secondary/secondaryassembly_apr09.aspx

Antur Byd-eang - Adnodd bwrdd gwyn rhyngweithiol newydd. Mae'r yn caniatáu i athrawon a disgyblion ddysgu am straeon bywyd plant ledled y byd. Mae'n cynnwys astudiaethau achos, ffotograffau, ffilmau fideo, taflenni gwaith a mwy. Ewch i

www.christianaid.org.uk/learn/globalexplorers a rhoi'r cyfle i'ch myfyrwyr ddechrau ar eu taith fyd-eang!

Pecyn Chembakolli Newydd

Mae ActionAid yn lansio argraffiad newydd o'r gwaith hynod boblogaidd Chembakolli: Life and change in an Indian Village.

Mae'r pecyn lluniau hwn yn



llawn o luniau a storïau newydd, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am gymeriadau a welwyd mewn pecynnau blaenorol. Mae'r cyfan yn dod â Chembakolli yn fyw yn y dosbarth. Yn ogystal, mae ActionAid yn rhoi pecyn am ddim i'r 50 ysgol gyntaf sy'n ffonio 01460 23 8000 gyda'r cod Mahout! Mae ffotogerdyn enghreifftiol, gweithgaredd gyda modelau a chanllaw i athrawon ar gael i'w llwytho i lawr am ddim yn www.actionaid.org.uk/lifeandchange